COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 4 o HYDREF 2021 YN NASARETH PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Linda Williams (yn y gadair),Alan Lewis,Heddwyn Jones,Tyssul Evans,Ian Evans,Caroline Williams,Tracey James,Meic Bowen,Margaret Rees,Geoff Hewitt a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Aled Williams a Geraint Rosser.

2660 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Llongyfarchwyd ein Clerc Glyndwr a'i Wraig Alison ar enedigaeth ei Wyres Bria.

2661 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 06/09/2021 fel rhai cywir gyda'r ychwanegiadau canlynol :-

a) Cadarnhau ein bod yn trefni cyfarfod gyda Mr Jonathan Hancock o'r Cyngor Sir i drafod materion ynglyn ag Adran 106 .

b) Cefnogi cais Clwb Pel-droed a Chriced Carwe am ei chais i adnewyddu Parc Carwe gydag arian Persimmon danAdran 106.

2662 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2648 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2648- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltwn eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.

Tud 1. Cofnod Rhif 2648 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.

Tud 1. Cofnod Rhif 2648 - Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am ymateb oddiwrth Phil Wait.

Tud 2. Cofnod Rhif 2648 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 2. Cofnod Rhif 2648 - Meddygfa'r Sarn,Pontiets - Danfonwyd copïau o'r Ohebiaeth at Gyngor Cymuned Iechyd Hywel Dda. Danfonwyd hefyd gwahoddiad i Reolwr y Feddygfa I gwrdd ag Is-bwyllgor y Cyngor ac ychwanegwyd enw'r Cynghorydd Heddwyn Jones at hyn.

Tud 2. Cofnod Rhif 2657 - Defibrillators - Derbyniwyd amcan brys oddiwrth Calon Heart.

Tud 3 Cofnod Rhif 2658 - Ciosg Ffon - Yn dilyn ymateb Cwmni Yswiriant Zurich penderfynwyd gofyn i BT am amcan-brys Ciosg newydd.

Tud 3 Cofnod Rhif 2659 - Croesffordd wrth y Neuadd ym Mhontiets - Mae'r angenrheidiol wedi eu cwblhau.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2663 Bethel Carwe – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Margaret Rees yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2664 Ebeneser Crwbin – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Margaret yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2665 Bethel Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2666 CFFI Sir Gar – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

2667 Tenovous – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2668 Clwb Pel-droed a Chriced Carwe – Safle Ail-gylchu – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

Cynghorwyr Tracey James a Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2669 Cylch Meithrin Carwe – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

Tracey a Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2670 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Parc Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2671 Nasareth Pontiets – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2672 Cyngor Sir Gar – Enwebu Cynrychiolydd ar ran Awdurdod Llai – Ysgol y Fro–Enwebiad y Cynghorydd Caroline Williams. – Derbyniwyd Llythyr oddiwrth y Cyngor Sir yn ymddiheurio am y camgymeriad nad oedd angen enwebiad ar hyn o bryd. Gofynnir i'r Cyngor Sir ymddiheurio i Mrs Williams.

2673 Senedd Ieuenctid Cymru – Gwahoddiad i enwebu – Nodwyd y Llythyr.

Ceisiadau Cynllunio

2674

a) Rhif y Cais - PL/02492 –Rhydhywel Fawr,Crwbin– Adeilad Haearn – Dim Gwrthwynebiad.
b) Rhif y Cais – PL/02519- Plas Bach,Llangyndeyrn – Lagoon _ Dim Gwrthwynebiad

Gwaharddiad y Cyhoedd

2675 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2676 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Medi.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2677 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :

a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Medi
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Medi
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Medi)
ch) HMRC (Treth)- £89.20 (Mis Medi)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Medi)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £52.92 (Mis Medi)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Medi) £182.00
f) K W Allen – Gwaith ym Marc Carwe - £15.00
ff) Excel Electrics – Parc Carwe - £288.00
g) Stampiau - £38.52

ng) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau - £14.90
h) Marcus Dininno – Sedd Newydd - £167.00
i) Marcus Dininno – Torri Gwair - £50.00
l) Zoom - £143.88
m) W T Evans – Nwyddau atgyweirio Parc Pontiets - £48.86

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

n) P I Evans – Gwaith yn Nhoiledau'r Meinciau - £22.50

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

2678 Parc Pontiets
Cafwyd adroddiad gan y Clerc at waith glanhau a thacluso'r Parc ym Mhontiets. Penderfynwyd ein bod yn chwilio am amcan brys i osod Ffens dro rhwng y Parc a'r Hewl Fawr.

2679 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Arolwg a Threfniadau Etholiadol Sir Gaerfyrddin - Adroddiad Argymhellion Terfynol
Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglyn a'r adroddiad uchod. Nodwyd y bydd Ward Llangyndeyrn a Ward Llandyfaelog yn uno i greu un Ward newydd a 2 sedd.

2680 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – Arolwg o Drefniadau Etholiadol San Steffan.
Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglyn a'r adroddiad uchod. Mynegwyd gwrthwynebiad llwyr a chlir ynglyn a'r bwriad i symud Cymuned Llangyndeyrn i Etholaeth Llanelli. Barn y Cyngor oedd gan bod y gymuned yn un gwledig byddai felly yn fwy pwrpasol symud Cymuned Llangyndeyrn i Etholaeth Caerfyrddin.

2681 Cysgodfa Bys – Tir Dafydd,Pontiets
Derbyniwyd e-bost ynglyn a gosod Cysgodfa Bys ochr draw i Dir Dafydd,Pontiets. Wedi trafodaeth penderfynwyd danfon yr e-bost i'r Cyngor Sir I sicrhau eu barn.

2682 Afon Cloigyn - Llangyndeyrn
Derbyniwyd cwyn ynglyn a Choeden a brigau yn yr Afon. Cafwyd ateb oddiwrth y Cyngor Sir yn dweud mai mater i'r Tirfeddianwyr neu NRW yw hwn.

2683 Menter Cwm Gwendraeth Elli – Swyddog Penodol (Grantiau)
Derbyniwyd e-bost oddiwrth Menter Cwm Gwendraeth Elli yn gofyn am ein cefnogaeth i benodi'r Swyddog uchod. Gan ein bod wedi trafod hwn yn y gorffennol penderfynwyd cefnogi'r cais.

Cynghorydd Ian Evans,Is-gadeirydd yn y gadair

Cynghorwr Linda Williams yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2684 Tir ar y Meinciau – Cais Cynllunio W/17123
Derbyniwyd consyrn ynglyn a'r cais Cynllunio uchod. Gofid y trigolion lleol yw y bydd dwr sy'n llifo oddiar y tir yn achosi problemai I'r trigolion lleol. Hefyd gofynnir I'r Datblygwr I edrych eto ar cyfraniad adran 106.

Linda yn ail ymuno a'r cyfarfod

Cynghorydd Linda Williams yn y gadair

Cyfarfod nesaf:- 1af Tachwedd 2021 – Neuadd Pontiets

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……